

Garawys 5- Ioan 11. 1-45

Mae'n siŵr bod yna gwestiwn ar ein cyfer ni i gyd heddiw - ydyn ni bron â chyrraedd y diwedd neu yn edrych ymlaen at ddechrau Newydd? Mae'r Garawys yn dirwyn i ben wrth i ni gyrraedd y 5ed Sul, ac fel Cristnogion rydym yn edrych ymlaen tuag at lawenydd dydd Sul y Pasg. Gwir ystyr y Garawys yw paratoi mewn gweddi ar gyfer y llawenydd yma wrth wybod bod Iesu, trwy ei Dad Nefol, yn medru rhoi i ni i gyd y gobaith yna am fywyd tragwyddol. Dyma'n wir beth yw neges yr Efengyl heddiw, wrth i atgyfodiad Lasarus fedru amlygu pŵer Iesu dros farwolaeth, i bawb sydd yn clywed ac yn derbyn ei air. Dyma'r un sydd yn medru cynnig y bywyd tragwyddol, gyda geiriau Ioan yn cyhoeddi'r gwirionedd - "Ac fe wyddom ni fod ei dystiolaeth ef mor wir" (Ioan 21:24) a dyma beth a gawn wrth i Ioan gyfleu'r athrawiaeth sy'n rhoi'r newyddion da o lawenydd mawr, y newyddion sydd mor rhyfeddol, sef y newyddion yma am iachawdwriaeth.

A dyma ni heddiw yn clywed am wyrth arbennig wrth i Iesu atgyfodi Lasarus. Rydym yn cwrdd â'r ddwy chwaer sydd yn rhoi eu hymddiriedaeth a'u ffydd yn eu ffrind arbennig - Iesu. Roedd y ddwy mor wahanol, ond roedd Iesu yn eu caru am eu personoliaeth, gyda hyn yn dangos bod Iesu hefyd yn ein caru ni i gyd. Mae Duw wedi ein creu yn wahanol ac fel Mair, mae gan rai y dymuniad i aros wrth draed yr Iesu, i weddio ac i ddangos y cariad angerddol yna tuag at ein gwardwr. Cariad a allwn hefyd ddangos tuag at Dduw a'n cymdogion, yn enwedig yn ystod yr amser anodd yma. Fe welwn eraill yn debyg i Martha, yn llawn prysurdeb, yn gweini ac yn hael ei chyfraniad a'i chroeso. Ac yna mae Lasarus yn marw, wrth ystyried cariad Iesu tuag at y teulu fe ellid meddwl y byddai Iesu yn osgoi hyn ond y gwirionedd yw ei fod wedi gadael Lasarus i farw er mwyn dangos disgleirdeb gogoniant Duw (11:41). Allan o hyn fe ddaw llawenydd perffaith y Pasg a'r atgyfodiad, ac yn dangos y pŵer sydd gan Iesu dros farwolaeth. Dengys hyn wir gariad Duw wrth iddo roi ei unig fab dros bechodau'r byd, y gair a ddaeth yn gnawd a phreswyllo yn ein plith; yn llawn gras a gwirionedd; gwelsom ei ogoniant ef, ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad. (1:14) Ie dyma'r un a ddyrchafwyd i ddangos mai Iesu oedd gwir fab y Tad. (3: 14).

Yn wir, mae'r Garawys yn amser da i ni fedru adnewyddu tristwch ein pechod wrth i ni fedru cael ein rhyddhau, wrth i ni fod yn unedig a theithio'n agosach at ostyngeddwydd a duwdod cysegredig Iesu. Mae'n gyfle i ni dynnu'n agosach at lawenydd y Pasg ac at iachawdwriaeth Iesu, a ddaeth allan o dristwch Dydd Gwener y Groglith a chreulondeb y groes.

Ac fe welwn trwy gydol naratif yr efengyl, y symbolau o'r tywyllwch sydd yn medru dod allan o'n profiadau, lle mae gobaith yn ymddangos yn absennol. Gallwn deimlo mor anobeithiol, gyda'r cyfan yn ein herio i gollu ein ffydd. Ond mae gobaith yr atgyfodiad yn rhoi ffydd yn ôl i ni, a'r gobaith, wrth ein dwyn allan o'r tywyllwch anhysbys, a'n trawsnewid gan roi i ni'r sicrwydd o obaith, wrth i ni wybod bod Duw, drwy ei bŵer a'i addewid, yn medru gorchfygu angau. Hyn yn oes oesoedd. Amen